COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU

POLISI AR GYFER CWYNION O DAN SAFONAU'R GYMRAEG

CWYNION

O dan y polisi hwn, gall cwyn gael ei gwneud gan unrhyw berson sydd o'r farn bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, neu unrhyw aelod o'i staff, wedi methu â chyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Bydd y polisi hwn yn nodi sut y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, a hyfforddiant a ddarperir i staff mewn perthynas ag ymdrin â'r cwynion hynny. Bydd y ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Comisiynydd ac ar ffurf bapur yn swyddfa'r Comisiynydd yn Gymraeg a Saesneg.

Nid yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am gwynion sy'n ymwneud â methiant swyddogion neu staff Heddlu De Cymru i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru sy'n gyfrifol am hyn o hyd.

Gallwch gwyno i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am ddiffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg os byddwch o'r farn bod unrhyw un o'r canlynol wedi digwydd:

1. Rydych o'r farn bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, neu aelod o'i dîm, wedi methu â chydymffurfio ag un o Safonau'r Gymraeg ar lefel sefydliadol (er enghraifft, mewn polisi neu drwy roi prosiect ar waith).

2. Rydych o'r farn bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, neu ei dîm, wedi methu â rhoi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith yn briodol neu mewn modd amserol, neu ei fod wedi methu â chywiro camgymeriadau a wnaed wrth roi'r Cynllun ar waith.

3. Os ydych o'r farn bod rhywun wedi ymyrryd â'ch rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Monitro Cwynion

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd i fonitro pob cwyn a wneir yn erbyn Heddlu De Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Gwna hyn drwy ddirprwyo awdurdod i'r Arweinydd Strategol Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb hapsamplu cwynion yn ôl yr angen, gyda chymorth yr Arweinydd Strategol

Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth, a monitro cydymffuriaeth gyffredinol Heddlu De Cymru â Safonau'r Gymraeg. Caiff pob cwyn ei thrafod hefyd gan Grŵp Strategol y Gymraeg Heddlu De Cymru ochr yn ochr â chwynion a wneir yn erbyn Heddlu De Cymru.

Fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg, bydd Adroddiad Blynyddol yn amlinellu cydymffurfiaeth â'r Safonau a gyhoeddir ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

CWYNION YN ERBYN COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

Mae'r canlynol yn amlinellu'r broses y dylid ei dilyn wrth wneud cwyn yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (neu aelod o'i staff) am ddiffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

1. Rhaid i gwynion gael eu gwneud i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yn y cyfeiriad canlynol:
2. Tŷ Morgannwg
   Pencadlys Heddlu De Cymru
   Heol y Bont-faen
   Pen-y-bont ar Ogwr
   CF31 3SU

   01656 869366

   commissioner@south-wales.police.uk

3. Ar ôl cael eich cwyn, bydd yr Arweinydd Strategol Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth yn cofnodi eich cwyn ac yn ymchwilio i gynnwys eich cwyn. Bydd yr Arweinydd Strategol Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn rheolaidd am yr ymchwiliad i'ch cwyn.

4. Ar ôl i'r ymchwiliad i'ch cwyn gael ei gwblhau, bydd yr Arweinydd Strategol Ansawdd Safonau a Chydymffurfiaeth yn darparu adroddiad y caiff ei ansawdd ei sicrhau gan yr Arweinydd Strategol Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb a'r Tîm Gweithredol. Bydd yr adroddiad yn nodi a yw eich cwyn yn cael ei chadarnhau.

5. Gwneir argymhellion yn yr adroddiad er mwyn nodi sut y caiff eich cwyn ei datrys. Caiff yr argymhellion hyn eu cymeradwyo yn ystod y cam sicrhau ansawdd ac yna eu gweithredu.

6. Gallai'r ffordd o ddatrys eich cwyn gynnwys esboniad, ymddiheuriad neu unioni camgymeriad neu anghywirdeb.

7. Ar ôl i'ch cwyn gael ei datrys, caiff eich cwyn a'r ffordd y cafodd ei datrys eu cofnodi mewn log gwersi a ddysgwyd er mwyn sicrhau bod unrhyw brosesau neu weithdrefnau a oedd yn ddiffygiol ac a arweiniodd at eich cwyn yn cael eu hunioni er mwyn atal unrhyw achosion pellach o dorri Safonau'r Gymraeg rhag codi.

8. Os oedd eich cwyn yn ymwneud â methiant aelod o staff i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac y caiff eich cwyn ei phrofi, yna darperir hyfforddiant pellach i'r aelod hwnnw o staff er mwyn sicrhau na fydd unrhyw achosion pellach o dorri'r safonau.

9. Os byddwch yn anfodlon o hyd ar y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn, gallwch gwyno ymhellach i Gomisiynydd y Gymraeg, gan ddefnyddio'r ffurflen gwyno a geir yn: Cysylltu â ni (comisiynyddygymraeg.cymru)

   Gallwch gwyno i Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â'r meysydd canlynol:

   1. Am fethiant sefydliad i gydymffurfio â safon
   2. Os byddwch o'r farn bod rhywun wedi ymyrryd â'ch rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Hyfforddi Staff

Yr Arweinydd Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth fydd yn bennaf cyfrifol am ymdrin â chwynion a wneir mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr Arweinydd Strategol Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth yn sicrhau y rhoddir ymateb yn Gymraeg neu'n Saesneg yn ôl y gofyn. Bydd yr Arweinydd Strategol Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth hefyd yn sicrhau y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd neu argymhellion a wnaed yn dilyn yr ymchwiliad i'ch cwyn eu rhoi ar waith yn swyddfa'r Comisiynydd gyda chymorth yr Arweinydd Strategol Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb.

Bydd yr Arweinydd Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth yn darparu hyfforddiant i'r aelodau o staff yn swyddfa'r Comisiynydd mewn perthynas ag ymdrin â chwynion a wneir mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Caiff yr hyfforddiant hwn ei dargedu'n benodol at rolau sy'n delio â'r cyhoedd bob dydd a/neu sy'n gyfrifol am ohebiaeth electronig y Comisiynydd at y cyhoedd gan gynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys sut i adnabod cwyn, y broses y mae'n rhaid ei dilyn pan wneir cwyn a sut mae cwynion yn cael eu datrys yn ffurfiol.

Cwynion yn Erbyn Heddlu De Cymru

Caiff cwynion a wneir i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am fethiant Heddlu De Cymru i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg eu trosglwyddo i'r awdurdod priodol yn Heddlu De

Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Yna, bydd Heddlu De Cymru yn cysylltu â chi yn uniongyrchol ynghylch eich cwyn a bydd yn dilyn ei bolisi ei hun mewn perthynas ag ymdrin â'ch cwyn. Bydd yr Arweinydd Strategol Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth yn cadw cofnod o'r holl gwynion a anfonir ymlaen i Heddlu De Cymru a chânt eu monitro gan yr Arweinydd Strategol Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth a'r Arweinydd Strategol Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb er mwyn sicrhau yr ymdriniwyd â nhw yn gyflym ac mewn modd rhesymol.

Adolygwyd ddiwethaf ym mis Ionawr 2023